CELG(4) WPL 15
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru
Ymateb gan S4C

Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ebost Email helo@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

# Tystiolaeth S4C i Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Uwch Gynghrair Cymru

13 Ebrill 2012

S4/C

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yw S4C sy'n darparu ystod o raglenni Cymraeg o safon uchel ar draws amryw o lwyfannau, gan gynnwys teledu a band llydan.

1.2 Mae S4C mewn partneriaeth â chwmni cynhyrchu Rondo Media yn falch o fod yn brif bartner darlledu ar gyfer pêl-droed domestig yng Nghymru ac wedi bod yn brif ddarlledwr Uwch Gynghrair Cymru a Chwpan Cymru dros y ddegawd ddiwethaf.

1.3 Mae natur y ddarpariaeth wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn ac am y tro cyntaf y tymor yma mae S4C yn darlledu gêm bêl-droed Gymreig yn fyw bob prynhawn Sadwrn yn ystod y tymor. Roedd hyn yn ychwanegol i'r rhaglen uchafbwyntiau, *Sgorio*, sy'n cynnig darpariaeth wythnosol o gemau'r Uwch Gynghrair, clybiau Cymru a phêl-droed Ewropeaidd. Mae gwefan *Sgorio* wedi ehangu hefyd ac erbyn hyn yn dangos uchafbwyntiau llawn holl gemau'r Uwch Gynghrair.

1.4 Mae S4C ar fin cwblhau trafodaethau gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru (CBC) ar gytundeb cynnwys newydd ac mae'n ffyddiog y gall, drwy'r cytundeb hwn, ehangu unwaith eto ei ddarpariaeth o bêl-droed Cymreig. Mae darpariaeth S4C o gemau Uwch Gynghrair Cymru wedi ymestyn i'w hymgyrchoedd Ewropeaidd. Mae'r partneriaethau gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a'r Uwch Gynghrair yn dangos ymrwymiad S4C i ddarpariaeth bêl-droed o safon uchel a hefyd buddsoddiad sylweddol yn y gêm yng Nghymru.

## 2. Ymateb S4C i gwestiynau'r ymchwiliad

2.1 Mae S4C yn credu fod safon pêl-droed yr Uwch Gynghrair wedi gwella'n sylweddol dros y tymhorau diwethaf. Mae gwell chwaraewyr yn cael eu denu i'r Gynghrair. Fodd bynnag, mae yna bryder am safon yr arwynebau chwarae sy'n amrywio o faes i faes.

2.2 Mae fformat newydd Uwch Gynghrair Cymru, gyda rhaniad canol tymor rhwng y chwe thîm ar y brig a'r chwe thîm ar y gwaelod a chynnwys gemau ail-gyfle, yn apelgar i ddarlledwr oherwydd ei fod yn cynnig sicrwydd o gemau deniadol yr holl ffordd hyd at ddiwedd y tymor. Mae'r cyfyngiadau ariannol ar lefel clwb yn hysbys ac ni fydd cynyddu nifer y timoedd sy'n cymryd rhan yn yr Uwch Gynghrair o reidrwydd yn cynnig ateb cynaliadwy hir dymor er mwyn cynyddu diddordeb yn, a chefnogaeth i'r, Gynghrair.

2.3 Dealla S4C fod CBC yn ymgynghori gyda'r clybiau ynglŷn ag ailstrwythuro fformat Cwpan y Gynghrair a bod y clybiau wedi mynegi dymuniad i chwarae'r gystadleuaeth yn gynnar yn y tymor. Gallai hyn leihau unrhyw elfen o ailadrodd posib yn ail hanner tymor y gynghrair.

2.4 Nid yw S4C yn credu y byddai symud i bêl-droed yr haf yn gwella rhyw lawer ar y profiad gwylio. Efallai y byddai cam o'r fath yn denu chwaraewyr o safon uwch sydd yn dymuno chwarae y tu allan i'r tymor traddodiadol a byddai'r arwynebau chwarae yn well, ond mae S4C yn amau y byddai'n codi proffil y Gynghrair yn y cymunedau lleol gan fod llai o bobl yn gwylio teledu yn ystod nosweithiau hir yr haf.

2.5 O safbwynt safle Uwch Gynghrair Cymru o fewn tirlun chwaraeon a chyfryngau Cymru, mae S4C yn falch o'i fuddsoddiad ei hun a'i ddarpariaeth o'r Gynghrair. Y ddarpariaeth deledu hon yw prif ffenestr gyfryngol y gêm yng Nghymru a does dim dwywaith y byddai gwell darpariaeth mewn cyfryngau eraill (er enghraifft papurau dyddiol ac wythnosol Cymreig) yn ehangu proffil y Gynghrair ymhellach.

2.6 Mae CBC wedi dweud wrth S4C ei bod yn gobeithio, gyda chydweithrediad y clybiau, cynnig adroddiadau o gemau rhad ac am ddim i'r cyfryngau. Gall hefyd fod yn werth i CBC ystyried chwilio am noddwr penodedig ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ychwanegol yn y cyfryngau print.

2.7 Mae S4C wedi mynegi diddordeb i ehangu darpariaeth yr Uwch Gynghrair i gynnwys gwe-ddarlledu gemau byw ar nosweithiau Gwener a phrynhawniau Sul. Byddai hyn yn ychwanegol i ddarlledu gêm fyw ar brynhawniau Sadwrn. S4C yw'r unig ddarlledwr yn y DU sy'n dangos gemau pêl-droed yn fyw ar brynhawn Sadwrn. Mae'r slot yma yn cyrraedd cynulleidfa eang. Yn ystod ei drafodaethau gyda CBC ar gyfer y cytundeb teledu domestig, mae S4C wedi cytuno i ganiatáu i BBC Cymru ar nos Wener rannu clipiau uchafbwyntiau gemau'r Gynghrair y penwythnos cynt. Yn y modd yma, o weithio mewn partneriaeth gyda BBC Cymru a'r cwmni cynhyrchu, gallai S4C gynorthwyo i gynyddu'r nifer sy'n gwylio'r Gynghrair ynghyd a nifer y gwylwyr teledu.

2.8 Dros y blynyddoedd diweddar mae clybiau wedi ymdrechu i wella'u cyfleusterau ac mae system drwyddedi bresennol CBC hefyd wedi arwain at welliannau. Mae angen mwy o waith yn y maes hwn, mewn partneriaeth gyda S4C a chwmnâi cynhyrchu'r Sianel. Y prif bryderon yw safon y llifoleuadau a mynediad i'r sgaffaldau teledu.

2.9 Mae S4C a'r Uwch Gynghrair wedi ymrwymo i gynnwys cymunedau yng ngweithgareddau pêl-droed. Mae S4C yn deall mai nod hir dymor CBC yw cael cae artiffisial '3G' ynghlwm â phob maes yn yr Uwch Gynghrair. Gallai cael cae bob-tywydd yn rhan o glybiau ledled Cymru fod o gymorth i ddatblygu'r gêm, a rhoi'r clybiau wrth galon chwaraeon yn eu cymunedau. Byddai S4C yn gefnogol i ddatblygiad o'r fath.

## 3. Casgliadau

3.1 Mae S4C yn gwerthfawrogi Uwch Gynghrair Bêl-droed Cymru yn fawr ac yn cydnabod ei rôl yn natblygiad pêl-droed yng Nghymru. Dylid blaenoriaethu gwella'r meysydd chwarae mewn rhai clybiau a byddai S4C hefyd yn cefnogi camau pellach er mwyn sicrhau mwy o dorf yn y gemau eu hunain.

3.2 I gloi, cred S4C fod Uwch Gynghrair Bêl-droed Cymru wedi bod, ac yn dal i fod, yn ganolog er mwn datblygu pêl-droed yng Nghymru. Mae fformat y Gynghrair yn gweithio'n dda ac mae datblygiadau real wedi digwydd mewn clybiau a chyfleusterau ar draws Cymru, o ganlyniad uniongyrchol i lwyddiant y Gynghrair. Ond nid da lle gellir gwell, ac mi fyddai S4C yn awgrymu blaenoriaethu'r canlynol:

- Codi proffil yr Uwch Gynghrair ar draws Cymru a thu hwnt.
- Gwella arwynebau chwarae.
- Cynyddu'r nifer sy'n mynychu gemau.
- Gwella cyfleusterau'r cyfryngau.
- Rhoi'r clybiau wrth galon y cymunedau.